

# Dod â data'n fyw

## Creu ap data tywydd

**1** Os yw'r grŵp yn newydd i'r pwnc hwn dechreuwch drwy ddangos y **ffilm Dod â data'n fyw** Gofynnwch beth maen nhw'n meddwl yw 'data tywydd'? (H.y. gall gyfeirio at ddata a arsylwyd neu a ragwelir, yn ogystal â data sy'n adlewyrchu effeithiau go iawn a rhagweledig y tywydd)

Yn y gweithgaredd hwn, bydd pobl ifanc yn dewis math o ddata tywydd i helpu creu ap o'r dyfodol gan ddefnyddio un o'r ffeiliau ffaith i'w gweld ar dudalen xx. Atgoffwch nhw bod ap yn fyr am 'becyn cymhwyso', meddalwedd y gellir ei osod a'i redeg ar ffôn clyfar, llechen neu ddyfeisiau electronig eraill, sy'n eu galluogi i gyflawni tasgau penodol neu gael mynediad i wybodaeth.

**2** Gofynnwch i bawb greu grwpiau bach a rhowch dempled egluro stori i bob un (ar dudalen 4–6). Eglurwch i gynllunio eu hap ar gyfer y dyfodol, bydd angen iddyn nhw weithio ar y cyd mewn grwpiau i benderfynu ar y canlynol:

- Cynulleidfa darged
- Teitl yr ap
- Math o ddata tywydd

25 munud

Gwaith grŵp

Templed ffeil ffeithiau

Templed egluro stori a chynlluniwr

Cyflwyniad ap data tywydd

- Dylunio'r cynnwys – pa arfau a fydd gan yr ap i wneud delweddu data'n ddefnyddiol i fywyd bob dydd neu i fusnesau? Er enghraifft, gallai'r ap argymell y mathau oddillad i'w gwisgo bob dydd, neu'r ffordd i fan ddosbarthu i osgoi tywydd garw
- Beth fydd diben yr ap a pha broblem bydd yn helpu i'w datrys?
- Beth yw pwynt gwerthu unigryw'r ap?
- Esboniad o sut y caiff y data tywydd ei ddelweddu

Bydd angen iddyn nhw sicrhau bod gan bawb yn y tîm rôl clir wrth gynhyrchu syniadau a chynllunio sut byddan nhw'n cyflwyno eu syniadau i weddill y dosbarth. Awgrymwch eu bod yn diffinio rhai rolau (h.y. meteorolegydd sy'n gorfod sicrhau bod y data tywydd yn gywir, cynllunydd, sy'n gorfod gwneud yr ap yn ddeniadol yn weledol a sicrhau pwysleisio'r wybodaeth allweddol, rhywun sy'n gorfod meddwl am y geiriau a sicrhau bod y testun yn hawdd i'w ddeall). Gan ddibynnu ar faint o amser sydd gennych, rydym yn argymell neilltuo o leiaf 15-20 munud ar gyfer y broses hon o gynhyrchu syniadau a bydd angen i bobl ifanc reoli eu hamser yn ofalus er mwyn cael syniad yn barod i'w chyflwyno.

**3** Pan ddaw'r amser i gyflwyno i'r dosbarth, efallai byddwch am ychwanegu mwy o ongl fusnes i'r gweithgarwch hwn drwy wahodd pob grŵp i ymgorffori trosolwg ar ddull Dragon's Den, sy'n cynnwys pwynt gwerthu unigryw eu hap ac awgrym o'r gost i'w lawr lwytho. Gall y daflen waith gynllunio atodol (ar dudalen xx) helpu pawb i roi cig ar asgwrn eu syniadau.

**Awgrym:** Gellir dylunio'r ap gyda phen a phapur drwy lawrlwytho templed (ar dudalen 8 i 10). Fel arall, os oes gan eich dosbarth fynediad i'r we a dyfeisiau llaw, gallwch lawrlwytho'r ap prototeipio POP i helpu'ch dosbarth i ddod â'i ddyluniadau'n fyw ar fformat prototeip digidol



© Hawlfraint y Goron 2022,
Y Swyddfa Dywydd

# Templed ffeil ffeithiau

**Dewiswch un o'r mathau o ddata isod i gynllunio eich ap data tywydd**

| | | |
|---|---|---|
| **Tymheredd aer (neu arwyneb y môr)** | **Gwasgedd atmosfferig** | **Cyflymder a chyfeiriad y gwynt** |
| **Dyddodiad (glawiad)** | **Cymylogrwydd** | **Effeithiau tywydd** |

# Templed bwrdd stori



**Tudalen flaen neu logo ar gyfer yr ap - sut byddwch chi'n denu sylw ato?**

# Templed bwrdd stori



**Hafan – beth caiff ei gynnwys yma?**

# Templed bwrdd stori



**Rhagolwg y tywydd ar gyfer y cyfnod y mae diddordeb gan eich cynulleidfa ynddo**

# Cynllunydd

**Nod gyffredinol:**

**Cynulleidfa darged:**

**Sut bydd yr ap yn ddefnyddiol i bobl?**

**Math o ddata tywydd y mae ei angen:**

**Sut caiff data'r tywydd ei arddangos? (Delweddu data)**

**Sut caiff y data tywydd ei gasglu neu ei gynhyrchu?**

**Pa nodweddion fydd gan yr ap?**